Stephen Grellet: 1773–1855

Pregeth i warws wag?

Dyfalbarhad / ffyddlondeb

Fyddwch chi'n siarad efo chi eich hun weithiau? Maen nhw'n dweud eich bod chi'n siarad efo chi eich hun pan fyddwch chi'n mynd yn hŷn. Mae'r stori hon yn sôn am un a fu'n pregethu iddo fo'i hun. Ond tybed oedd hyn yn wir. Darllenwch y stori.

Mae rhai pobl yn credu bod Duw yn eu galw i bregethu. Un o'r rhain oedd Stephen Grellet. Ffrancwr oedd Grellet yn byw yn Limoges, yn Ffrainc. Roedd o'n hanu o deulu cyfoethog. Er pan oedd o'n ddim o beth roedd wedi teimlo bod Duw yn ei alw i fod yn bregethwr. Yn yr ysgol byddai'r athrawon yn gofyn i'r plant,

"A beth ydych chi am fod ar ôl tyfu i fyny?"

Byddai'r atebion yn amrywio. Ambell ddiwrnod byddai un o'r plant eisiau bod yn ffermwr ond y diwrnod wedyn byddai eisiau bod yn adeiladydd. Ond roedd Grellet yn bendant. Yr un fyddai'r ateb bob tro. Pregethwr!

Ar ôl astudio am gyfnod, aeth drosodd i America. Daeth yn bregethwr gyda'r Cyfeillion neu'r Crynwyr. Yn aml iawn yn ystod gwasanaethau'r Cyfeillion ni fyddai neb yn dweud yr un gair. Byddai pob aelod yn eistedd yn y distawrwydd yn meddwl am Dduw. O dro i dro os byddai rhywun yn teimlo ar ei galon fel dweud gair byddai'n sefyll ar ei draed, dweud yr hyn oedd ganddo i'w ddweud ac yna eistedd. Bob tro y câi gyfle byddai Grellet yn siŵr o ddweud gair.

Un diwrnod, ar un o'i deithiau, fe ddaeth ar draws warws oedd yn llawn o goed ar gwr coedwig fawr. "Dyma fy nghyfle," meddai Grellet. "Caf bregethu i'r gweithwyr yn y warws. Rwy'n siŵr y byddan nhw'n barod i wrando ar yr hyn sydd gen i i'w ddweud."

Agorodd ddrysau trymion y warws. Cerddodd i mewn yn hamddenol. Doedd yr un enaid byw yno. Cerddodd o un pen i'r llall. Teimlai'n ddigon trist. Doedd neb yno i wrando arno. Fel roedd yn mynd allan drwy'r drysau, clywodd lais yn galw arno. Roedd yn sicr mai llais Duw oedd yno. Yr unig air a glywai oedd "Pregetha". Roedd y gair yn diasbedain yn ei glustiau. Aeth yn ôl

i'r warws a dechreuodd bregethu.

Bu'n pregethu am hanner awr dda. Caeodd y Beibl a'i roi yn ei boced, caeodd ddrws y warws ac aeth adref. Ar ei ffordd adref meddyliodd, "Mae'n siŵr mai dyna'r peth gwirionaf a wnes i erioed. Pregethu i ystafell wag!"

Ymhen blynyddoedd wedyn fe'i hatgoffwyd o'r digwyddiad hwn. Ond pwy oedd yn gwybod? Doedd dim enaid byw yn y warws. Un o'r gweithwyr oedd wedi dod yn ôl i'r warws gan fod un o'i gyd-weithwyr wedi anghofio dod â rhai o'r celfi efo fo. Pan gyrhaeddodd y gweithiwr ddrws y warws, clywodd lais y pregethwr. Arhosodd y tu allan i wrando. Bu'n gwrando am hanner awr. Y noson honno aeth y gweithiwr adref a dywedodd wrth ei wraig ei fod am ddarllen y Beibl. Ar yr aelwyd honno, daeth rhai o bobl y pentref at ei gilydd i ddysgu mwy am y Beibl. Roedd yn syndod mawr i Grellet pan glywodd y stori gan y gweithiwr.

"Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd."

Marc 16:15

"O Dduw, dyro inni'r serenedd
i dderbyn yr hyn na ellir mo'i newid
y dewrder i newid yr hyn y gellir ei newid,
a'r doethineb i fedru gwahaniaethu rhyngddynt."
Amen.

(Gweddi Reinhold Niebuhr)
(1892–1971)

Oes yna le i "bregethu" heddiw?
Fyddwch chi yn hoffi gwrando ar bregeth yn y capel neu'r eglwys?

Stephen Grellet: 1773–1855